Gwasanaethau i gyd am 10.30 os na nodir yn wahanol

Ionawr7 - Cymundeb Parchg Hywel Wyn Richards
14— Parchg Hywel Wyn Richards
21 – Parchg Gerwyn Jones
28 – Parchg Hywel Wyn Richards
Chwefror 4 – Cymundeb – Parchg Gerwyn Jones
11 - Parchg Gerwyn Jones
18 - Parchg Hywel Wyn Richards
25 – Parchg Dyfrig Rees
Mawrth4 - Cymundeb - Parchg Hywel Wyn Richards
11 - Parchg Gerwyn Jones
18– Parchg Hywel Wyn Richards (Casgliad at Goleg yr Annibynwyr)
25 – Parchg Robin Samuel Sul y Blodau
30 - Dydd Gwener y Groglith Cymundeb - 10.00 Parchg Hywel Wyn Richards

Tabernacl Porthcawl

IONAWR 2018

Dyma ran o gyflwyniad Rosan ar ei Sul olaf fel ein gweinidog

Mae'n rhaid i fi gyffesu mod i wedi ei chael yn anodd iawn, am wahanol resymau i baratoi rhywbeth ar gyfer bore 'ma. Gan gofio emosiwn y gwasanaeth, beth fyddai'n addas?

Mae heddiw yn ddiwedd blwyddyn 2017, fory fe ddaw blwyddyn newydd, 2018, a mae diwedd un peth gan amlaf yn golygu dechrau rhywbeth arall. Mae heddiw hefyd yn ddiwedd fy nghyfnod fel gweinidog Tabernacl. Fory fe ddaw cyfnod newydd yn hanes yr eglwys.

Mae lot fawr wedi digwydd dros y bron i bymtheg mlynedd dwi i wedi bod yn eich plith ac rwy am ddiolch i chi am gyfnod hapus iawn yn eich plith.

Diolch i ysgrifennydd yr eglwys hon, sydd yn ogystal a bod yn gydweithiwr arbennig, hefyd wedi bod yn ffrind arbennig. Mae wir wedi bod yn fraint cael ei adnabod a chydweithio gydag e, sdim byd wedi biod yn ormod o drwbl iddo. Tom diolch i ti.

A mae'r un peth yn wir am y swyddogion a'r diaconiaid i gyd ar hyd y blynyddoedd, ni wedi bod yn dîm gweithgar iawn a chyfeillgar iawn.

Diolch i chi i gyd fel aelodau a ffrindiau, mae wedi bod yn fraint cael bod yn weinidog arnoch a chael rhannu yn nhristwch a llawenydd eich bywydau.

Ac yn enwedig chi bobl ifanc, dw i wedi joio yn eich cwmni ac wedi cael lot o sbri yn y Clwb Ffynci a'r gwahanol wasanaethau, yn enwedig "Tŵr Ffawlti". A'ch gweld chi yn tyfu ac yn datblygu i fod mor llwyddiannus yn academaidd a cherddorol, rhyfeddol, diolch i chi famau a thadau am eich cefnogaeth hefyd

Dyma ‘r bobl ifanc fu’n cymryd rhan yn y gwasanaeth.

Diolch i’r organyddion a chyfeilyddion am eich gwasanaeth gwerthfawr.

Felly, wedi diolch i chi i gyd, diolch i Dduw am fy arwain i atoch ac am ei bresenoldeb a’i arweiniad dros y blynydde.

Ga’ i yn awr ddymuno i bob un ohonoch yn bresennol ac fel eglwys Flwyddyn Newydd Dda a phob dymuniad da i’r dyfodol, o dan arweiniad Hywel a Gerwyn ac wrth gwrs ein Duw byw.
Does yr un ohonom yn gwybod beth sy’n ein haros yn y 12 mis nesaf, ond gallwn fod yn siŵr y bydd yr Iesu gyda ni bob cam o’r ffordd.

Rosan

Llantrisant. Mae 10,000 wedi mynd i Albania a 5,000 i Rumania. Diolch i’r rhai ohonoch fu’n paratoi bocsys eleni eto.

CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG
Dyma amserlen y cyfarfodydd fydd yn cymryd lle yn 2018.

Mawrth 14eg – Nos Fercher ym Mhen-y-bont ar Ogwr:- Ymweliad Cyfeillion o Gyfundeb Gorllewin Caerfyrddin

Gorffennaf 8fed.– Dydd Sul yn Efail Isaf - Oedfa’r Cyfundeb

Medi 26ain— Nos Fercher Minny Street Caerdydd - Apêl Madagascar.

EGLWYSI YNGHYD YM MHORTHCAWL
Dyma amserlen cyfarfodydd Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol.

Dydd Llun - Ionawr 22ain - Cinio Cawl - Eglwys Gilgal (Park Avenue) am 12 o’r gloch

Dydd Mawrth - Ionawr 23ain - Bore Coffi - Eglwys Trinity am 10.30.

Dydd Mercher Ionawr 24ain - Cinio Cawl - -Eglwys All Saints Victoria Avenue am 12.o’r gloch.

Nos Iau - Ionawr 25ain Noson Ffilm Stella Maris New Road am 7.00 yr hwyr.

Dydd Gwener Ionawr 26ain - Bore Coffi - Y Centre - 10.30 y bore

Nos Sul Ionawr 28ain Gwasanaeth Undebol - Eglwys St John yn Newton am 6.00 yr hwyr

Eglwysi Ynghyd Ym Mhorthcawl Cyfarfod blynyddol -

Nos Iau Chwefror 8fed yn Eglwys Trinity am.-.7.00 yr hwyr. Siaradwr Gwâdd Parchg Gethin Rhys MA,Mphil, Blitt Swyddog Polisi Cytûn Cynulliad Cymru - Brexit, y Bersbectif Cristnogol. Croeso i bawb.

BANC BWYD

Diolch i bawb sydd wedi bod yn cyfrannu yn rheolaidd i'r blwch sydd yng nghyntedd y capel. Mae pob dim a gyfrannir yn mynd i'w dosbarthu yn lleol i nifer gynyddol o bobl lleol sydd yn dibynnu ar y Banc Bwyd. Diolch i Tom a Rhiannon sydd yn mynd a'n cyfraniadau i'r ganolfan leol yn rheolaidd.

SADWRN SIARAD

Mae y Boreau Coffi yma yn mynd o nerth i nerth. Mae yn gyfle gwych i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg ac i ddod i adnabod Cymry Cymraeg mewn awyrgylch gymdeithasol. Dewch i sgwrsio gyda'r dysgwyr ac i fwynhau cwpaned a rhywbeth i fwyta ar yr un pryd.

WEDI YMDDEOLIAD ROSAN

Erbyn hyn mae y Parchg Hywel Wyn Richards wedi bod gyda ni i'n harwain yn yr oedfaon dros y ddau Sul cyntaf o'r flwyddyn ac yntau wedi cytuno i'n cynorthwyo am ddau Sul o bob mis am y ddwy flynedd nesaf. Diolch iddo am ei waith gyda ni ac hefyd i'r Parchg Gerwyn Jones un o'n haelodau am fod yn barod i'n cynorthwyo hefyd. Rhaid pwysleisio ni fydd Y Parchg Hywel Wyn Richards yn weinidog arnom ond bydd yn ymweld â'r aelodau i ddod i adnabod ein cynulleidfa.

Rydym wedi crybwyll penodi Gweithiwr Ieuenctid/Teuluoedd Ifanc ar gyfer y pen yma o'r Cyfundeb gyda Chapel Tabernacl Pen-y-bont a'r Chyfundeb Dwyrain Morgannwg. Mae'r ddau wedi cytuno i drafodaethau pellach i weld a oes modd symud ymlaen ymhellach cyn cynnwys Undeb yr Annibynwyr hefyd yn ein trafodaethau. Y gobaith yw bydd y swydd yn cael ei hariannu rhwng y pedwar partner yma. Gobeithiwn symud ymlaen gyda'r syniad yma yn ystod y flwyddyn sydd yn dod.

OPERATION CHRISTMAS CHILD

Diolch i bawb oedd wedi mynd ati i baratoi bocsys o nwyddau i'w rhoi i blant mewn gwledydd ble mae tlodi mawr a dim modd i blant dderbyn unrhyw anrhegion ar wahan i'r bocsys yma sydd yn cael eu danfon gan yr elusen yma bob blwyddyn. Eleni casglwyd 22,000 o focsys yn yr ardal i'w didoli yn y ganolfan yn

Cyflwyniad Tom ar ddiwedd gwasanaeth Dydd Sul Rhagfyr 31ain.

Roeddem yn gwybod fod hyn yn mynd i ddigwydd rhyw ddiwrnod ond pan mae wedi dod ar ôl cyfnod mor hapus yn hanes yr eglwys ni i gyd yn teimlo ychydig o dristwch. Mae hynny'n naturiol gan ei bod yn wynebu bywyd nawr heb ein harweinydd o bron i bymtheg mlynedd. Ond wedi dweud hynny mae Rosan we brwydro i barhau ymlaen er gwaethaf sawl problem gyda'i hiechyd, a ni'n ddiolchgar iawn iddi am hynny.

Tybed faint ohonoch sydd yn gwybod sut daethon i gysylltiad â Mrs Saunders yn y lle cyntaf? Wrth edrych yn ôl, ni'n siŵr i ni gael ein harwain achos dyma sut digwyddodd pethau.

Fi oedd yn llanw'r Suliau nôl yn 2002, ac roedd gen i Sul gwag ar y 9fed o Fehefin 2002. Pryd hynny doedd gen i ddim o'r hyder i drefnu a chymryd gwasanaeth, felly dyma gael gair gyda Meirion Sewell, ein gweinidog ar y pryd, a dyma fo'n dweud "Mi allai wneud y prynhawn i ti ond ddim y bore". Wedyn es drwy blwyddiadur a ffonio pawb oeddwn yn adnabod, ond neb yn gallu dod yn y bore, wedyn gwelais yr enw yma Rosan Suanders, dyma feddwl pam lai does gen i ddim i'w golli a dyma hi'n dweud "Mi allai wneud y bore i chi ond ddim y prynhawn.

Felly'r Sul cyntaf iddi ddod yma oedd 9fed Mehefin 2002. Ar ddiwedd y gwasanaeth dyma gael sgwrs am beth oedd hi'n wneud a deall fod ei chontract fel Gweithiwr Ieuenctid gyda'r Annibynwyr yn dod i ben a'i bod yn meddwl mynd yn ôl i'r weinidogaeth amser llawn. Fel pwyllgor sefydlu buom yn trafod hyn achos roeddem yn mynd i fod yn ddi-weinidog ar ddiwedd y flwyddyn gan fod Meirion yn ymddeol.

Trefnon iddi ddod i bregethu yma ar brawf 21ain o Orffennaf 2002.

Wedyn dwi'n siŵr fod y profiad nesaf o ddod i gwrdd a'r Pwyllgor Sefydlu o rhyw ddwsin ohonom wedi bod yn hunllef

iddi. Felly i drafod ymhellach fe drefnwyd fod John Stone a fi yn ei chwrdd ar “Neutralground”, rhywle o ddewis Rosan, a ble benderfynodd Rosan ein bod yn cwrdd? Yn Joe’s IceCream Parlour yn Abertawe.

Mae gen i atgofion hyfryd o’r cyfarfod yna, cawsom sgwrs gartrefol ac wedi’r cyfarfod roedd John a fi’n trafod yn y car ar y ffordd yn ôl ac yn berffaith hapus i argymell ein bod yn ei gwahodd i fod yn weinidog arnom. A ni mor falch iddi dderbyn.

Ei Sul cyntaf oedd yr 2il o Chwefror 2003. Cynhaliwyd y Cwrdd Sefydlu ar ddydd Sadwrn 12fed o Ebrill 2003.

Ar ôl y cyfarfod sefydlu es i’r neuadd drwy’r drws ochr, roedd menyw yn cerdded i’r neuadd a dyma hi’n dweud -
“Chi ydi’r ysgrifennydd”
“Ia”, medda fi, a dywedodd wedyn -
“Chi ddim yn gwybod pa mor lwcus ydych chi yn cael Rosan yn weinidog arnoch, mae gennych berl yma, ac edrychwch ar ei hôl”.

Felly Rosan dwi’n gobeithio ein bod wedi edrych ar dy ôl achos ti wedi edrych ar ein hôl ni. Diolch yn fawr i ti.

Felly dyna’r cefndir ond tybed pa bethau cofiadwy sydd yn dod i’ch meddwl chi wrth feddwl yn ôl dros y 15 mlynedd mae Rosan wedi bod yn weinidog arnom.

Un o’r pethau cyntaf wnaeth Rosan oedd sefydlu’r Cylchlythyron. Mae nhw wedi bod yn ffordd o rannu gwybodaeth a chadw cysylltiad gyda’r rhai sydd yn methu dod i’r cwrdd yn rheolaidd, ac mae nhw’n hanesyddol yn cofnodi’r cyfnod yn fanwl.

Wedyn siŵr o fod, mae’r neuadd newydd yn weddol uchel ar restr pawb. Rosan oedd tu ôl i ni i gyd, yn ein annog ymlaen pan oedd pethau yn edrych yn ddu. A pwy all anghofio ei nofio bore Dolig, yn ei siwt clown, i godi arian tuag at y neuadd. Mae gen i luniau i brofi’r peth.

a chydnabyddiaeth o waith Rosan dros ei chyfnod o bron bymtheg mlynedd yn ein plith. Diolch unwaith eto i Derek am drefnu y cinio ac i bawb a fu yn rhan o’r digwyddiad cofiadwy yma.

CAROLAU YNG NGOLAU CANNWYLL

Ar Nos Wener Rhagfyr y 15fed cafwyd noson arall fendithiol wrth i ni ddod ynghyd unwaith eto i’r digwyddiad blynyddol yma. Unwaith eto creuwyd awyrgylch Nadoligaidd, gynnes gyda’r byrddau wedi eu haddurno ac ychydig o oleuadau cannwyll.(rhai bateri!). Ond uchafbwyntiau y noson oedd y darlleniadau a’r eitemau cerddorol a gafwyd ac yna mwynhau ychydig luniaeth dros baned. Noson hyfryd arall ac mae’r diolch i Meirwen Jones a John Williams am drefnu unwaith eto ac i bawb a fu yn cymryd rhan.

OEDFA NADOLIG Y GYMDEITHAS GYMRAEG

Cynhaliwyd yr oedfa am 3.00 o’r gloch ar brynhawn dydd Sul 17eg Rhagfyr. Daeth nifer o aelodau’r Gymdeithas at ei gilydd i’r oedfa a nifer wedi cymryd rhan drwy wahanol ddarlleniadau. Bu i bawb fwynhau y cymdeithasu yn y Neuadd dros baned a Mins Pei ar ôl yr oedfa. Diolch i Rhiannon a Tom am drefnu ac i bawb a fu yn cymryd rhan.

OEDFA GAROLAU ADRAN/AELWYD YR URDD

Cynhaliwyd y gwasanaeth yma ar Nos Fercher Rhagfyr 20fed am 6.00 yn y capel. Braf oedd cael bod yno yng nghwmni y plant o Ysgol y Frech o Sger, bobl ifanc Adran yr Urdd ac aelodau Aelwyd Porthcawl. Noson arall o gerddoriaeth a darlleniadau Nadoligaidd wedi eu cyflwyno yn broffesiynol iawn gan yr ieuenctid. Diolch i bob un fu wrthi ar y noson ac hefyd i’r rhai sydd yn rhoi o’u hamser i hyfforddi yn yr ysgol ac yn yr Adran a’r Aelwyd. Diolch am ein harwain i awyrgylch y Nadolig unwaith yn rhagor. Bydd i’r arian a gasglwyd yn ystod y gwasanaeth yn mynd at elusen Shelter Cymru.

YSBYTY

Wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty mae Mrs Glenys John wedi cwymp yn ei chartref. Da yw medru dweud ei bod yn gwella ar ôl derbyn llawdriniaeth a'i bod yn ôl wrth ei phethau ac yn yr oedfaon gyda ni. Diolch am y gofal arbennig y mae wedi derbyn gan Clive a Jen Strang. Estynnwn ein dymuniadau gorau i bob un ohonynt.

Cadwn yn ein gweddïau Jessie Gravelle yn Nghartref Gofal Brocastell. Cofiwn hefyd am Marian Davies, Mair Davies, Haulwen Pierce, Barbara Jones, Marina Davies a Marian Roberts ac eraill sydd oherwydd afiechyd a llesgedd yn methu mynychu'r oedfaon fel y dymunent.

BEDYDD

Ar fore Sul Rhagfyr 17eg braf oedd bod yn dystion i Wasanaeth Bedydd yn ystod yr oedfa pan fu i Rosan fedyddio Lleucu Jones merch Dafydd a Denise Jones a chwaer Gwen. Lleucu yn un o blant yr Eglwys sydd wedi tyfu i fyny yn ystod gweinidogaeth Rosan.

CINIO NADOLIG

Bu aelodau a chyfeillion yr Eglwys yn brysur fwynhau ciniawa dros gyfnod y Nadolig. Ar Ddydd Sul Rhagfyr 10fed bu tua 30 ohonom yn mwynhau pryd blasus a chymdeithasu yng nghwmni cyd aelodau yng Ngwesty'r Atlantic. Diolch i Derek Pearce unwaith yn rhagor am drefnu popeth a pharatoi cwis arall diddorol i hogi ein ymennydd.

Yna ar Sul olaf y flwyddyn daeth bron 70 ynghyd yng Nglwb Golff y Grove i fwynhau pryd blasus arall o fwyd, cymdeithasu gyda'n gilydd a chael ein diddori. Dod at ein gilydd oeddem i ddiolch ac i ffarwelio â Rosan wrth iddi ymddeol. Roedd yna dristwch yng nghalonnau nifer ond cafwyd amser bendithiol iawn yng nghwmni ein gilydd a theulu Rosan. Roedd yn braf cael bod yno i wrando ar gwmni o'n pobl ifanc (a rhai beth yn hŷn) yn canu geiriau ar dôn "Y Mochyn Du" a gyfansoddwyd gan Tom. Geiriau o ddiolch

Dwi'n siŵr wnawn ni ddim anghofio'r Cyrddau Teuluol gyda'r holl bapur, gliw ac ati, fel cawsom y Sul diwethaf. Ni'n diolch i ti Rosan am yr holl baratoi ti wedi wneud ar gyfer y Cyrddau Teuluol. Hefyd beth am yr holl daflenni Saesneg sydd wedi mynd gyda'r gwasanaethau.

I'r bobl ifanc fe sefydlodd Rosan y Clwb Ffynci, dwi'n siŵr fod y bobl ifanc am i mi diolch yn fawr iddi am yr amser roddodd hi iddynt yn y Clwb Ffynci. A ni'n diolch hefyd am baratoi gwaith ar gyfer y bobl ifanc a'u cyfraniadau hwy i'n gwasanaethau dan arweiniad Rosan

Mae na nifer o bethau eraill hefyd, fel ein Pererindodau, Dosbarth Beiblaidd, Swper Sedar, Swperau Cynhaeaf, Ciniawau Nadolig a dwi'n siŵr fod na bethau eraill hefyd. Mae nhw i gyd yn bethau ni'n diolch amdanynt ac sydd wedi mynd at greu ein naws cartrefol yn yr eglwys.

Mae'r achlysuron hyn i gyd yn gyfleoedd ni wedi cael, dan arweinyddiaeth Rosan, i gymdeithasu fel eglwys, a gyda ffrindiau o eglwysi eraill, ac i dyfu beth mae Rosan wedi alw sawl tro yn Koinonia ein heglwys.

Yn olaf rhaid i mi ddiolch am ei gofal dros y cleifion a'r rhai sydd wedi bod mewn unrhyw fath o ofid, mae hi wedi bod yno yn dawel yn gefn i ni i gyd ac yn rhannu ei chariad. Dwi eisiau diolch o galon i ti Rosan am dy ofal drosom i gyd.

I orffen roedd rhaid oedd ceisio cyfansoddi englyn i Rosan –

I Rosan ar ei hymddeoliad

Ei hoes hi roes i'r Iesu, am iddo
Ei maddau a'i charu.
Â'i hwyl gwnaeth ei ad-dalu.
Rhannai'n rhad y cariad cu.

Ble roedd ing, ble roedd angen, hi yno
a daenodd ei heulwen
â llaw oedd tu ôl i'r llen.
Yn siŵr ti i ni'n seren.

Diolch i Rosan i'w chanu ar "Y Mochyn Du"

Holl aelodau a chi ffrindiau
Dewch i wrando hyn o eiriau,
A cewch hanes ein gweinidog
A'i holl ddoniau amlochrog

O mor drwm yr ydym ni,
O mor drwm yr ydym ni,
Y mae yma alar calon
Wrth ffarwelio nawr â ti.

Daeth hi atom ym mis Chwefror
Yn llawn egni, hwyl a hiwmor,
Hynny 'n ôl rhyw bymtheg mlynedd.
Siŵr i'n brofi ei hamynedd.

Dan ei chyngor a'i harweiniad
Y mae gennym nawr adeilad
Sydd yn addas i bob pwrpas
O glwb yoga i gymdeithas.

Clywsom ganddi am Koinonia
Dysgodd inni fod yn ffrindia',
A drwy lwyth o gliw a phapur
Gwnaeth ein cred yn hwyl ac eglur.

Gyda'i dawn a'i hwyl a'i hegni
Fe sefydlodd y Clwb Ffynci,
Ar ran pawb ni yn dweud thanciw
Dyna pam ni yma heddiw.

Hi sefydlodd ein cylchlythyr
Gyda'i holl hanesion difyr,
O'i chyflwyniad cawsom berlau
Ynddo'n gyson rhwng ei gloriau.

Erbyn hyn mae'n cinio Dolig
Wedi dod yn ddathliad pwysig,
I Tom Price gael tynnu lluniau
O'n bwyd blasus gyda ffrindiau.

Swper Pasg a Swper C'naea,
Rhaid yw cofio'n Per'indota
Ac rwy'n siŵr fod yna ragor
Gan un sydd di bod yn drysor.

Ond cyn gorffen hyn oganu
dwedwn diolch am ein caru,
Fe ddymunwn i ti iechyd
Rho draed lan, mwynha dy fywyd.

Rhaid ffarwelio nawr a Rosan
Gyda dim ond pwt o fawlgan,
Ond ni eisiau i ti gofio
Bydd it' wastad yma groeso.

Tom Price

Diolchiadau Rosan

Ymddiheuriadau, ron i wedi bwriadu danfon cerdyn o ddiolch i chi, ond mae ymddeoliad yn brysurach na gweithio!!.

Meddwl amdanoch bore 'ma gyda hiraeth yn fy nghalon o'r 'koinonia" hyfryd roedd gennym yn ein cyfarfodydd.

Dwi am ddiolch i chi gyd am Sul olaf fel eich gweinidog nad anghofiaf i na'm teulu chwaith. O'r geiriau or-garedig i'r rhodd hael dros ben nad oedden i'n ei ddisgwyl a'r 'necklace' *absoliwtli amasin* y byddai'n ei drysori. I'r pryd bwyd a'r koinonia ac awyrgylch braf yno. Diolch

You all pulled out all the stops so that I had the most memorable day ever, and wish you all and the church every blessing. Pob bendith i chi gyd a diolch unwaith eto.

Gyda llawer o gariad, eich cyn- weinidog 😉,ond dal yn ffrind agos

Rosan xx

CYDYMDEIMLO

Ers y cylchlythyr diwethaf rydym unwaith yn rhagor wedi colli aelodau o'n plith yma yn y Tabernacl. Rym ni fel eglwys yn cydymdeimlo'n ddwys iawn gyda teulu Donald Jones yn eu colled o dad a thadcu ac hen dadcu annwyl a gofalus iawn. Gwelwn ei eisiau yn yr oedfaon ac yntau wedi mynychu hyd eithaf ei allu cyn ei salwch. Bu yn weithgar iawn dros nifer fawr o flynyddoedd fel aelod, fel Diacon ac fel Ysgrifennydd. Bydded i Dduw fod gyda'r teulu cyfan oedd wedi bod mor ofalus ohono.

Bydded i Dduw hefyd fod gyda teulu Merle Davies hefyd a fu yn aelod ffyddlon yma yn y Tabernacl hyd nes iddi symud i gartref gofal yng Nghaerdydd i fod yn nes at ei theulu. Wrth ymweld â hi yno byddai bob amser yn falch o gael hanes y Tabernacl. Bu yn weithgar a phrysur tra yn y cartref yn cymryd rhan yn yr holl weithgareddau oedd yn cael eu trefnu.

Rydym ar ddeall hefyd fod aelod arall sef Mr Richard Pritchard wedi marw yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd wedi symud rai blynyddoedd yn ôl i Lidiard ym Mhen–y–bont i fod yn nes at ei frawd ac yna wedi mynd i gartref gofal ym Mracla .

Cofiwn yn ein gweddiau am y teuluoedd yma, ac unrhyw rai o deulu'r Eglwys sydd wedi colli perthnasau neu ffrindiau yn ddiweddar.